

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 12ed o Ebrill 2011.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Dafydd G Owen (Cadair), Harry W Owen (Talysarn); Elwyn Jones Griffith, Ifan Glyn Jones, Barry Bracegirdle (Penygroes); Gwyndaf Roberts, Hefina M W Roberts (Llanllyfni); Eurig W Evans (Nebo).

Gwahoddwyd Nia Parry i'r cyfarfod i drafod rhaglen sydd am gael ei ffilmio am Nadolig Mhenygroes. Croesawyd Nia i'r cyfarfod, a gofynnodd am fewnbwn y Cyngorwyr ar gyfer syniadau ar gyfer cyfres o dair rhaglen drost gyfnod y Nadolig. Bydd yn gobethio dechrau ffilmio fis Mai.

Roedd y Cyngorwyr yn siomedig iawn o weld bod ffens Cwting wedi ei malu, ac angen ei thrwsio mor fuan ar ol ei adnewyddu.

Derbyniwyd llythyr gan Cyngor Gwynedd yn ein diweddarau ar eu cynlluniau i drïo taclo problemau baw cwn yng Ngwynedd.

Adroddiadau Pentrefi.

Nantlle – Roedd cwynion am dyllau ar y ffordd, ac am ddefaid crwydrol yn baeddu. Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Talysarn – Cafwyd cwynion nad yw bysiau yn mynd i Fro Silyn bob tro – byddwn yn cysylltu a Chyngor Gwynedd; Hefyd, cwyn am faw cwn ar hyd y ffordd o Talysarn i Bro Silyn.

Penygroes – Derbyniwyd ebost gan Brifathro Ysgol Dyffryn Nantlle yn dangos rhai o'r disgyblion yn atgyweirio wal yn y cae chwarae – roedd y Cyngorwyr yn falch iawn o dderbyn yr wybodaeth yma gan yr ysgol; Derbyniwyd sylw bod bagiau ysbwriel wedi eu lluchio i faes parcio Capel y Groes yn ystod y mis, ac y bu i Gyngor Gwynedd ymateb yn syth i'r gwyn am y tipio, a chlirio'r ysbwriel oddi yno. Byddwn yn ysgrifennu i ddiolch am y gwasanaeth; Roedd cwyn fod Japanese Knotweed yn y cae ger garej Poveys.

Cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn. Wedi'r noson wobrwyo hynod lwyddiannus a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Llanllyfni, roedd Bwrdd yr Iaith wedi datgan eu bod yn awyddus i'r gystadleuaeth hon gario ymlaen, a chytunodd y Cyngor y byddent yn parhau i gefnogi'r gystadleuaeth hon.

Y Sioe Frenhinol Llanllyfni – gan mai yr hen Sir Gaernarfon sydd yn noddol i'r sioe eleni, cytunodd y Cyngor roi rhoi rhodd ariannol o £250.

Eisteddfod yr Urdd Eryri, 2012 – penderfynwyd rhoi cyfraniad o £5000 tuag at darged codi arian ardal Dyffryn Nantlle.

Materion yn ymwneud a'r heddlu. Derbyniwyd cwyn am fan yn cael ei pharcio ar y palmant yn Llanllyfni. Roedd y Cyngorwyr yn bryderus bod cerddwyr yn methu pasio ar y palmant, ac yn gorfod camu allan i'r lon; Derbyniwyd cwyn am geir ar werth yn cael eu parcio ar y palmant ger y gylchfan ar y ffordd osgoi; Hefyd, cwynion am dwrw ar y bont ar Ffordd Clynnog am tua 1.30 y bore, a chaniau a photeli yn cael eu gadael ar ol.

Derbyniwyd ebost gan yr Heddlu yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd hysbysu'r heddlu yn syth am droseddau, drwy ffonio 101 neu 999 ar bob achlysur, fel eu bod yn gallu ymateb i gwynion yn effeithlon.